**COFNODION**

**Dyddiad:** 28 Tachwedd 2002

**Amser:** 2.00 – 3.30pm

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 2, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

| **Yn bresennol:** | |
|---|---|
| **Aelodau** | Rhodri Glyn Thomas (Plaid Cymru, Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr, Cadeirydd)<br><br>Jenny Randerson (Democratiaid Rhyddfrydol, Canol Caerdydd, Gweinidog y Cynulliad)<br><br>Owen John Thomas (Plaid Cymru, Canol De Cymru)<br><br>Lorraine Barrett (Llafur, De Caerdydd a Phenarth)<br><br>Delyth Evans (Llafur, Canolbarth a Gorllewin Cymru) |
| **Swyddogion** | Margaret Evans (Is-adran y Celfyddydau, y Loteri a Chwaraeon)<br><br>Arthur Emyr (Is-adran y Celfyddydau, y Loteri a Chwaraeon) |
| **Ysgrifenyddiaeth** | Marie Knox, Pennaeth Gwasanaethau Ymchwil yr Aelodau a'r Pwyllgorau |
| | |

**2.00pm**

**Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau, eilyddion a datganiadau o fuddiant**

1.1 Croesawodd y Cadeirydd y Pwyllgor ac aelodau'r cyhoedd.

1.2 Derbynwiyd ymddiheuriadau gan Rosemary Butler (Llafur, Gorllewin Casnewydd), Alison Halford (Llafur, Delyn); Dafydd Wigley (Plaid Cymru, Caernarfon) a Glyn Davies (Ceidwadwr, Canolbarth a Gorllewin Cymru)

1.3 Eglurodd y Cadeirydd y newidiadau diweddar i ofynion y rheolau sefydlog ar ddatgan buddiannau.

**2.05pm**

**Eitem 2: Adolygiad Polisi ar Chwaraeon**

Digwyddiadau Mawr / Cwpan Ryder

**CC 19-02(p1)**

**Cyflwyniad gan Rob Holt, Awdurdod Datblygu Cymru a Brian Davies, Golf Development Wales**

2.1 Gwnaed y pwyntiau canlynol:

- Dywedodd Mr Holt bod diffyg tystiolaeth (ar wahân i dystiolaeth anecdotaidd) am effaith digwyddiadau mawr ar y niferoedd sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon, tra bo tystiolaeth am y manteision i'r economi a thwristiaeth. Roedd yr hwb i economi'r Midlands o ganlyniad i gynnal cystadleuaeth Cwpan Ryder yn y Belfry wedi cael ei amcangyfrif yn £15 miliwn.

- Bydd Cwpan Ryder yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad golff yng Nghymru. Gobeithir y bydd yn tynnu sylw at y digwyddiad cyn ac ar ôl y gystadleuaeth 3 diwrnod yn 2010.

- Roedd y cais i gynnal Cwpan Ryder wedi cynnwys cefnogaeth gan y llywodraeth genedlaethol a'r llywodraethau lleol ac ymrwymiad tymor hir i golff ar bob lefel. Hefyd, roedd ymrwymiad i bwysleisio manteision y digwyddiad i Gymru gyfan.

- Roedd y tîm a wnaeth y cais yn cynnwys Awdurdod Datblygu Cymru, Bwrdd Croeso Cymru, Cyngor Chwaraeon Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru, y Celtic Manor, Cyngor Dinas Casnewydd ac amryw o gynrychiolwyr o fyd golff Cymru.
- Cost yr hawliau i'r digwyddiad oedd £1miliwn. Fel rhan o'r cais roedd ymrwymiad wedi'i wneud i sefydlu Cronfa gwerth £2 miliwn i ddatblygu golff yng Nghymru ac roedd rhaglen o ddigwyddiadau blynyddol yn gysylltiedig â'r digwyddiad wedi'i lansio yn 2001. Nid oedd ymrwymiadau'r cais yn cynnwys y buddsoddiad y byddai'r Celtic Manor yn ei wneud i wella'r cwrs ac unrhyw fuddsoddiad y byddai ei angen ar gyfer gwneud gwelliannau eraill i'r seilwaith.
- Roedd manteision eraill y digwyddiad yn cynnwys y potensial i godi proffil rhyngwladol Cymru a thwristiaeth, yn enwedig y cyfle i werthu Cymru fel 'lleoliad golff' tramor.

- Mae'r Wales Open sy'n cael ei gynnal yn y Celtic Manor yn cael ei ariannu gan y Celtic Manor.
- Pwysleisiodd Mr Brian Davies nad digwyddiad tri diwrnod yng Nghasnewydd yn 2010 oedd cais Cwpan Ryder yn unig, ond mai ymrwymiad wyth mlynedd ydoedd i sicrhau bod mwy o bobl yn chwarae golff.

- Er mwyn mynd â'r ymrwymiad hwn yn ei flaen, ffurfiwyd Golf Development Wales, yn cynrychioli Undeb Golff Merched Cymru, y Golf Foundation, Cyngor Chwaraeon Cymru ac Undeb Golff Cymru.

- Mae'r strategaeth datblygu pedair mlynedd a luniwyd gan Golf Development Wales yn cynnwys targedau i godi'r nifer sy'n cymryd rhan mewn golff, gan ganolbwyntio ar gael merched a bechgyn i gymryd rhan - er enghraifft, cynyddu aelodaeth y merched o 692 i 2700 ac aelodaeth y bechgyn o 7300 i 10200 - ac i chwalu'r myth mai gêm ddrud a dethol yw golff trwy hysbysebu cyfraddau ymaelodu arbennig ar gyfer plant er enghraifft.
- Mae Golf Development Wales yn gobeithio mynd â 12 i 15 o fentrau yn eu blaen megis darparu gwersi am ddim i ferched sydd wedi cael eu cyflwyno i'r gêm fel rhan o fenter "Genethod yn Gyntaf" Cyngor Chwaraeon Cymru a chefnogi canolfannau cychwyn sy'n derbyn plant o dan 10 oed. Y gobaith oedd gallu cynyddu nifer y canolfannau cychwyn i 62 dros y pedair blynedd nesaf.
- Roedd polisïau aelodaeth a mynediad i glybiau preifat yn fater i'r clybiau eu hunain. Fodd bynnag nid yw Golf Development Wales yn gweithio gyda'r clybiau hynny nad ydynt yn derbyn plant, fel bod arian y loteri yn cael ei dargedu i'r clybiau hynny sy'n fodlon gweithio i gynyddu nifer y ieuenctid sy'n cymryd rhan.

2.2 Gwnaed y pwyntiau canlynol yn y sesiwn cwestiwn ac ateb:

- Mae angen gwneud mwy i fynd i'r afael â delwedd golff fel gêm ddrud ac i'w wneud yn fwy agored i grwpiau ehangach o bobl. Er enghraifft gallai tâl blynyddol o £60 rwystro rhai teuluoedd rhag chwarae petai'n amhosibl rhannu'r taliadau dros y flwyddyn.
- Mae Golf Development Wales yn annog clybiau i brynu setiau o glybiau golff bach sy'n addas ar gyfer pobl ifanc.
- Er mwyn dysgu egwyddorion golff i blant ifanc, roedd gêm o'r enw Try Golf wedi'i datblygu a oedd yn defnyddio offer plastig ac y gellid ei chwarae y tu mewn. Gellir hyfforddi athrawon i ddysgu'r gêm mewn 2 awr.
- Pennwyd polisi tocynau Cwpan Ryder gan European Tour / PGA sydd yn berchen ar y digwyddiad. Nid oedd y WDA felly yn gallu gwarantu y byddai tocynnau ychwanegol yn cael eu darparu i grwpiau penodol, er y gallai gynhyrchu pecynnau addysg er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r digwyddiad. Y gobaith oedd y gellid gweithredu polisi tocynnau mwy agored petai Casnewydd yn ennill y cais i gynnal y gystadleuaeth ar gyfer Menywod sy'n cyfateb i Gwpan Ryder.

**2.45pm**

**Eitem 2: Adolygiad Polisi ar Chwaraeon**

**Digwyddiadau Mawr / Gemau'r Gymanwlad**

Cyflwyniad gan Myrddin John a Dr Wayne Griffiths o Gyngor Gemau'r Gymanwlad yng Nghymru

3.1 Mae Cyngor Gemau'r Gymanwlad wedi paratoi cyflwyniad a chyfres o sleidiau yn nodi'r gwahanol rwystrau sydd i gymryd rhan mewn chwaraeon. Roedd y rhain yn eang iawn ac yn gymhleth, ac yn cynnwys ffactorau unigol, amgylcheddol a chymunedol. Ymhlith y pwyntiau a wnaed, soniodd Dr Wayne Griffiths am y canlynol:

- Mae angen i strategaethau i gynyddu'r nifer sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon ganolbwyntio ar fynd i'r afael ag anghenion yr unigolyn - "person centred pathway" - a gweithio gyda grwpiau ehangach o garfannau perthnasol - "community centred pathway". Byddai'n hanfodol bod asiantaethau yn cydweithio.
- Roedd problem benodol ynghylch cymryd rhan mewn chwaraeon yng Nghymoed y De.

- Y mae angen canolfannau rhagoriaeth ar lefel genedlaethol ac hefyd mewn cymunedau lleol.
- Gallai diffyg cludiant i leoliadau fod yn ffactor allweddol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.
- Mae'r holl sylw am athletwragedd yn y cyfryngau wedi gwneud i ferched sylweddoil fod llwyddo mewn chwaraeon yn rywbeth da i anelu ato.
- Mae angen datblygu medrau ar lefel leol a gwirfoddol. Mae angen i'r adnoddau sydd ar gael gael eu hyrwyddo yn ehangach.
- Mae angen i gystadleuwyr o Gymru gystadlu mewn cystadlaethau rhyngwladol blynyddol er mwyn eu paratoi i gymryd rhan mewn digwyddiadau mawr. Gemau'r Gymanwlad eleni oedd profiad cyntaf nifer o athletwyr o Gymru o gystadlu â phencampwyr gorau'r byd.

3.2 Yng nghyflwyniad Myrddin John gwnaed y pwyntiau canlynol:

- Roedd graddfa Gemau'r Gymanwlad a'r seilwaith sydd ei angen i'w gefnogi yn eithaf sylweddol. Ym Manceinion roedd pentref yr athletwyr yn gartref i 6000 o bobl a bu 2000 o staff yn gweithio yn ystod y digwyddiad.
- Mae darlledu digwyddiadau mawr ar y teledu yn helpu i ennyn diddordeb pobl mewn chwaraeon, gan gynnwys pobl ifanc.
- Roedd Gemau'r Gymanwlad yn arbennig o bwysig am mai hon yw'r unig gystadleuaeth ryngwladol y mae Cymru yn cystadlu ynddi fel cenedl.
- Er mwyn i Gymru fod yn llwyddiannus ym mhob maes chwaraeon roedd yn bwysig osgoi canolbwyntio naill ai ar chwaraeon elité neu ar fuddsoddi ar lawr gwlad ar draul un ohonynt; dylid buddsoddi yn y ddau.
- Corff gwirfoddol yw Cyngor Gemau'r Gymanwlad; nid corff llywodraethu chwaraeon ydyw. Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth ddarparu £7,000 y flwyddyn, roedd Cyngor Chwaraeon Cymru wedi darparu £30,000 ac roedd noddwyr wedi darparu £20,000 ar gyfer y Gemau ym Manceinion 2002. Ni lwyddwyd i gyrraedd y targed codi arian o £300,000 ond, ar ôl cwtogi ar wario, roedd y tîm wedi llwyddo i gystadlu yn y gemau gyda'r £150,000 a oedd wedi'i godi. [check figures] Teimlai Myrddin John fod y gefnogaeth a roddwyd i dîm Cymru yn destun cenfigen ymhlith y cystadleuwyr eraill yng Ngemau'r Gymanwlad.

3.3 Gwnaed y pwyntiau canlynol yn y sesiwn cwestiwn ac ateb a ddilynodd:

- Teimlai Myrdidn John ei bod yn annodd codi arian yng Nghymru am ei bod yn well gan fusnesau Cymru gefnogi gemau rygbi tra oedd pencadlys y cwmnïau mawr yn Lloegr, ac felly roeddent yn tueddu i dargedu'r arian yno. Ni wnaeth Mr John dderbyn bod gwledydd eraill y DU wedi bod yn fwy llwyddiannus wrth godi arian am eu bod yn cyflogi pobl broffesiynol. Roedd y Cyngor wedi ymdrechu ddwywaith yn y gorffennol i gyflogi pobl broffesiynol i godi arian ac yn y ddau achos, roedd y Cyngor yn teimlo nad oedd yn darparu gwerth am arian. Nid yw'r Cyngor yn cyflogi person i godi arian ar hyn o bryd.
- Teimlai Mr John fod y Cyngor wedi sicrhau gwerth da am arian o ran nifer y medalau a enillwyd gan athletwyr o Gymru o'i gymharu â lefelau'r cyllid.

- Dywedodd Owen John Thomas mai ei ddymuniad oedd gweld y Cynulliad yn cyfrannu'r un faint o arian ag y mae'r Cyngor wedi llwyddo i'w godi mewn nawdd.
- Pwysleisiodd y Pwyllgor y byddai'n braf clywed bod strategaeth yn ei lle i wella ymdrechion codi arian.
- Dywedodd Delyth Evans ei bod yn ymwybodol o bryderon ynghylch ansawdd y dillad a ddarparwyd i athletwyr Cymru yng Ngemau Manceinion. Anghytunodd Mr John ac roedd yn teimlo bod offer tîm Cymru wedi bod yn well nag offer timau eraill, ar wahân i Ganada.

- Nododd Mr John fod amseru'r Gemau nesaf ym mis Mawrth yn hytrach na mis Awst yn golygu y byddai athletwyr yn cael eu dethol ar sail eu perfformiad yn ystod y flwyddyn flaenorol yn hytrach na'r tymor cyfredol, gan mai newydd gychwyn fyddai hwnnw. Roedd cynlluniau ar y gweill i dîm Cymru gyrraedd Melbourne wythnos cyn y cystadleuwyr eraill er mwyn gallu dod i arfer â'r hinsawdd.
- Mewn ymateb i gwestiwn ar a oedd y Cyngor wedi bod yn trafod gyda Chyngor Dinas Caerdydd y posibilrwydd o wneud cais am Gemau'r Gymanwlad nesaf, dywedodd Mr John mai'r cais posibl nesaf fyddai Gemau 2014. Roedd tîm o swyddogion o Melbourne wedi aros ymlaen yng Nghymru wedi'r Gemau ym Manceinion i gynnal trafodaethau gyda swyddogion y Cyngor. Fodd bynnag mae nifer o ffactorau i'w hystyried er mwyn gwneud cais llwyddiannus. Yn wir, gallai cyflwyno cais i gynnal y Gemau gostio £1miliwn.

3.4 I gloi'r trafodaethau fe wnaeth y Cadeirydd wahodd yr holl gyflwynwyr i roi sylwadau cyffredinol ar ddenu digwyddiadau chwaraeon mawr i Gymru.

3.5 Roedd ymatebion yn cynnwys:

- Ym mhob achos, y prif ysgogiad i ranbarthau neu i wledydd gynnal digwyddiadau chwaraeon mawr oedd y manteision economaidd posibl yn hytrach na'r effaith ar chwaraeon yn yr ardal honno. Roedd denu un digwyddiad mawr i Gymru yn helpu i ddenu rhai eraill. Byddai angen strategaeth ddigwyddiadau er mwyn sicrhau bod Cymru yn gwneud cais am y digwyddiadau cywir ac am y rhesymau cywir. Mae mynd ati fel "Tîm Cymru" gan gynnwys yr holl bartneriaid economaidd yn hanfodol i sicrhau fod pob cais yn llwyddiant.

- Ni ddylid tanbrisio seilwaith, logisteg a chostau cynnal digwyddiadau mawr, na'r effeithiau negyddol posibl o gynnal digwyddiad na chafodd ei drefnu yn iawn. Roedd y broses o wneud cais am ddigwyddiad hefyd yn dod yn fwyfwy costus.
- Caerdydd oedd yr unig ddinas yng Nghyrmu a fyddai'n gallu cynnal Gemau'r Gymanwlad oherwydd yr angen am westy a chyfleusterau eraill. Fodd bynnag, byddai gofyn am gyfleusterau eraill i gwrdd â gofynion technegol y Gemau yng Nghaerdydd ac mewn mannau cyfagos er mwyn i'r cais fod yn llwyddiannus - er enghraifft mae'n debygol y byddai rhai o'r farn bod Abertawe'n rhy bell o Gaerdydd i gynnal y cystadlaethau nofio.
- Roedd manteision posibl digwyddiadau mawr yn cynnwys: cyfrannu at dwf economaidd, codi proffil yr ardal a'r genedl lle maent yn cael eu cynnal; hybu delwedd y bobl sy'n byw yn yr ardal honno; ac annog pobl i wirfoddoli.
- Ni fyddai manteision posibl digwyddiadau chwaraeon mawr yn cael eu gwireddu'n llawn petai buddsoddiad yn canolbwyntio ar seilwaith ffisegol yn unig ac yn esgeuluso buddsoddi yn yr adnoddau dynol sydd eu hangen. Nid oedd pwynt darparu cyfleusterau ffisegol heb ddatblygu darpar athletwyr Cymru.

3.6 Diolchodd y Cadeirydd i'r cyflwynwyr am eu cyfraniad a daeth â'r cyfarfod i ben.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Tachwedd 2002**